

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Borough Head

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



GRADDFA: 0 400 800 m

PELLTER/HYD: 5.0 milltir (8.0 km) 3 awr

CLUDIANT CYHOEDDUS: *Pâl Gwibio 400 (*tymhorol, galw a theithio)

CYMERIAD: Llwybr yr arfordir, llwybr gweddol hwylus ond mwy serth o Brandy Bay i Mill Haven, 1.6 milltir (2.5 km) o gerdded ar isffyrdd

CHWILIWCH AM: Bryngaerau Oes Haearn • cilfachau gydag enwau atgofus - 'Brandy Bay', 'Dutch Gin', 'Foxes' Holes' • blodau'r gwanwyn ar yr arfordir • golygfeydd o'r arfordir

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Llwybr yr Arfordir
- Cadwch at y llwybr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiâu

ALLWEDD

- • • • Llwybr Cylch
- Llwybr Arfordir Sir Benfro
Llwybr Cenedlaethol
- - - Llwybrau Cyhoeddus
- Parcio - cyfyngedig
- Safle Bws



Borough Head

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 3 awr

Pellter: 5.0 milltir (8.0 km)

Cludiant cyhoeddus: *Pâl Gwibio 400 (*tymhorol, galw a theithio).

Cyfeirnod map: SM836123

Mae'r arfordir caregog i'r gorllewin o Little Haven yn lle gwych i gerdded copa'r clogwyni, ac mae yna olygfeydd gwych ar draws Bae Sain Ffraid i Benmaen Dewi ac Ynys Dewi.

Yn Sir Benfro mae gennym lawer o seintiau; yn yr achos hwn, credir mai Sain Ffraid yw'r Saint Brigid o Kildare. Ganed Brigid yn Iwerddon yn hwyr yn y 5ed ganrif a sylfaenodd leiandy yng Nghildare. Nid oes cofnod bod y saint wedi ymweld â Sir Benfro.

Fe all y môr fod yn ofnadwy ar hyd y ffin Ddeheuol hon ym Mae Sain Ffraid, ond yn draddodiadol yn Goulthrop Roads roedd cysgod Borough Head yn lle diogel i longau gysgodi rhag y storm.

Uwchlaw Goulthrop Roads a Bae Musselwick mae'r clogwyni'n gyfoeth o goed gyda deri digoes. Mae'r clogwyni mawreddog hyn yn hynafol iawn, creigiau cyn-Gambraidd igneaidd tua 650 miliwn mlwydd oed.

Wedi'ch tywys chi drwy gilfachau gydag enwau atgofus - Brandy Bay a Dutch Gin - mae'r llwybr yn cyrraedd ardal gul Foxes' Holes, ble mae'r clogwyni'n newid. O'r fan yma, ar y graig o dan eich traed, y mae Hen Dywodfaen Coch; sylwch ar y gwahaniaeth rhwng pridd coch cyfoethog y caeau gerllaw.

Ychydig tua'r tir ac mae'r llwybr yn ymylu â'r hyn sydd ar ôl o faes awyr Talbenni. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd fe

fyddai awyrennau yn hedfan o feysydd awyr yn Sir Benfro fel Talbenni i chwilio am longau tanfor Almaenig ac yn gwarchod gosgorddllu Môr Iwerydd a oedd yn cyflenwi Prydain.

Fe ddechreuodd y gwaith ar adeiladu Talbenni yn 1941 a'r uned RAF cyntaf i weithredu o'r orsaf hon oedd sgwadron yn llawn o fomwyr Vickers Wellington, wedi eu hedfan gan ddynion Tsiecoslofacia. Gadawyd yr orsaf yn 1946.

Sylwer: Mae'r llwybr a ddangosir ar y map OS yn arwain o lwybr yr Arfordir i Goulthrop Roads wedi syrthio i ffwrdd ac nid oes modd ei ddefnyddio.